# CRAFf

# Cylchlythyr





## Amdanom ni

Croeso i gylchlythyr cyntaf y CRAFf. Ychydig o wybodaeth am bwy ydym ni. Rydym yn grwp o rhieni a ffrindiau sy'n gysylltiedig ag Ysgol Gymraeg Y Login Fach ac yn gwirfoddoli ein hamser i helpu casglu arian i'r ysgol trwy gynnal digwyddiadau a ffeiri. Gyda'ch cefnogaeth a'ch help chi rydym wedi helpu'r ysgol i brynu ipads, byrddau a chadeiriau ar gyfer dosbarth blwyddyn 4 ac arwyddion lliwgar newydd o gwmpas yr iard.



## Casglu Arian dros y Pasg

Yn dilyn gorymdaith y bonedau Pasg y llynedd mi wnaeth y plant ofyn am rhywbeth gwahanol y flwyddyn yma. Gan ystyried cais y plant, rydym wedi cyfuno codi arian gyda'r her Pasg. Bydd arian sy'n cael ei godi yn cael ei rhoi tuag at targed newydd o gael offer chwarae newydd i'r iard.

# Her Potel Laeth Pasg

**ADDURNO A LLENWI EICH POTEL LAETH GYDA ARIAN MÂN**





GWOBR AR GYFER Y BOTEL ORAU A'R AIL YM MHOB DOSBARTH

**DYCHWELYD Y BOTEL ADDURNEDIG ERBYN EBRILL 10FED**



Arian a godwyd i fynd tuag at offer chwarae newydd ar gyfer yr iard